Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

CBHC RCAHMW
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales



# 2024

# ARCHAEOLOGICAL ACHIEVEMENT AWARDS

80 YEARS Council for British Archaeology

Cadw




# CONTENTS
# CYNNWYS


1. **Welcome Message**
2. **About The Awards**
3. **Shortlisted Nominees**
    1. Archaeology & Sustainability
       Archaeoleg a Chynaliadwyedd
    2. Engagement & Participation
       Ymgysylltu a Chyfranogi
    3. Early Careers Archaeologist
       Archaeolegwyr ar Ddechrau eu Gyrfa
    4. Public Dissemination or Presentation
       Rhannu Gwybodaeth neu Gyflwyno i'r Cyhoedd
    5. Learning, Training and Skills
       Dysgu, Hyfforddiant a Sgiliau
4. **Sponsors and Judges**



WELCOME TO THE
# ARCHAEOLOGICAL ACHIEVEMENT AWARDS



This year has been an exciting year for the Archaeological Achievement Awards and for the judging panel who are drawn together from different parts of the sector. We have seen an extraordinary range of projects nominated from across the U.K and Ireland that demonstrate the hard work, passion and creativity that goes towards making archaeology accessible to everyone.

Year after year the incredible projects and individuals nominated for these awards exceed our expectations as judges. The current crop of nominees continue to push the boundaries of our discipline, showing us that archaeology has the power to inspire collaboration, to embrace diversity, to champion inclusivity, and to push for equity. Those themes rightly deserve celebration and recognition and they are at the very heart of the Archaeological Achievement Awards.

With the continued raising of the bar by the nominees, the process of judging the awards has certainly become more challenging, the discussions lengthier and the decisions tougher! And the awards and us as a panel of judges aim to be the better for it. We'd like to thank all of our judging panel for their positive energy, persistence, perseverance and perception throughout the rigours of the process. These are clearly exciting times for archaeology, and we look forward to seeing what the future holds.

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn flwyddyn gyffrous i Wobrau Cyflawniadau Archaeolegol ac i'r panel beirniadu, sy'n dod at ei gilydd o wahanol adrannau o'r sector. Rydym wedi gweld ystod arbennig o brosiectau enwebedig ar draws y D.U. ac Iwerddon, sy'n dangos y gwaith caled, yr angerdd a'r creadigrwydd wrth wneud archaeoleg yn hygyrch i bawb.

Blwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r prosiectau a'r unigolion anhygoel sy'n cael eu henwebu ar gyfer y gwobrau hyn yn rhagori ar ein disgwyliadau ni a'r beirniaid. Mae'r grŵp presennol o enwebeion yn parhau i wthio ffiniau ein maes, gan ddangos fod gan archaeoleg y grym i ysbrydoli cydweithrediad, amrywiaeth, hybu cynhwysiant, a gweithio tuag at gydraddoldeb. Mae'r themâu hynny yn haeddu cael eu dathlu a'u cydnabod, ac maent wrth wraidd y Gwobrau Cyflawniadau Archaeolegol.

Gyda chynnydd parhaus yn y safon gan enwebeion, mae'r broses o feirniadu yn sicr yn fwy heriol, y trafodaethau'n hirach a'r penderfyniadau yn fwy anodd. A'r nod yw y bydd y gwobrau a ninnau fel panel o feirniaid yn elwa o hynny. Hoffem ddiolch i'n holl feirniaid ar y panel am fod mor bositif, ac am eu dyfalbarhad, eu hegni a'u gweledigaeth drwy gydol y broses drylwyr. Mae'n amlwg yn amser cyffrous yn y byd archaeolegol, ac rydym yn edrych ymlaen at weld beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig.



**James Kyle**
CHAIR OF JUDGES

**Laura Hampden**
VICE- CHAIR OF JUDGES



# ARCHAEOLOGY & SUSTAINABILITY

## 1000 Fingerprints 1000 Voices

The Scottish Crannog Centre has built a new museum, using locally sourced materials, local skills, and developing and sustaining local resources. In under 3 years we opened our doors to the public with a new museum, built by a community, designed by and for the communities we serve – local schools, local charities and organisations, apprentices, refugee groups, mental health groups, our partners, and by MGS, HES and others.
Mae Canolfan Cranogau'r Alban wedi adeiladu amgueddfa newydd, gan ddefnyddio deunyddiau o ffynonellau lleol, a datblygu a chynnal adnoddau lleol. Mewn llai na 3 blynedd, rydym yn agor ein drysau i'r cyhoedd gydag amgueddfa newydd, wedi'i hadeiladu gan gymuned, wedi'i chynllunio gan ac ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu – ysgolion lleol, elusennau a mudiadau lleol, prentisiaid, grwpiau ffoaduriaid, grwpiau iechyd meddwl, ein partneriaid, ac MGS, HES ac eraill.

## Fair Game:

### Valuing the bio-cultural heritage of fallow deer and their venison for food security, sustainable woodlands and biodiversity

Fair Game demonstrates how archaeological research can provide solutions to contemporary challenges. Fair Game articulates medieval-style principles and archaeological evidence of fallow deer management, processing and venison redistribution, to transform public understanding and sector partnerships and approaches to deer management, creating positive outcomes for biodiversity, climate action and food justice.

Mae Fair Game yn dangos sut y gall ymchwil archaeolegol ddarparu datrysiadau i heriau ein hoes. Mae Fair Game yn rhoi llais i egwyddorion o arddull canoloesol a thystiolaeth archaeolegol o reoli ceirw brithion, prosesu ac ailddosbarthu cig ceirw, er mwyn trawsnewid dealltwriaeth y cyhoedd a phartneriaethau rhwng sectorau a dulliau o reoli ceirw, gan greu canlyniadau cadarnhaol o ran bioamrywiaeth, gweithredu ar yr hinsawdd a chyfiawnder bwyd.

## ARCHAEOLOGY & SUSTAINABILITY SPONSOR

National Highways are the government company which plans, designs, builds, operates and maintains England's motorways and major A roads, known as the strategic road network (SRN). At National Highways, archaeological investigations are always an important part in preparing to build a road.

national highways



# ENGAGEMENT & PARTICIPATION



## Bryn Celli Ddu Public Archaeology Project

GWREIDDIAU (Roots) is the 10th year anniversary of the Bryn Celli Ddu public archaeology project. It is a cross-disciplinary, outdoor arts and heritage project; an opportunity to respond to the Bryn Celli Ddu passage tomb through archaeological excavation, folklore and performance; exploring its histories and ritual using a contemporary lens.

Mae GWREIDDIAU yn nodi 10fed pen-blwydd prosiect archaeoleg cyhoeddus Bryn Celli Ddu. Mae'n brosiect celfyddydau a threftadaeth awyr agored, trawsddisgyblaethol; mae'n gyfle i ymateb i fedd cyntedd Bryn Celli Ddu drwy gloddio archaeolegol, llên gwerin a pherfformiadau, gan ymchwilio i'w hanesion a'i ddefodau drwy lens gyfoes.

## Welcome to the Scottish Crannog Centre

The Scottish Crannog Centre is an open-air museum in Perthshire with a mission to care for and make accessible the finds of Scottish Crannog dwellers for the benefit, enjoyment, education and inspiration of all.

Amgueddfa awyr agored yn Sir Perth ydy Canolfan Cranogau'r Alban a'i chenhadaeth ydy gofalu am ganfyddiadau trigolion Cranogau'r Alban a'u gwneud yn hygyrch er budd, mwynhad, addysg ac ysbrydoliaeth i bawb.



## Diving into the Digital Archives of the Earl of Abergavenny

'Diving into the Digital Archives of the Earl of Abergavenny' was a project designed to develop digital skills amongst volunteers in the heritage sector. Portland Museum used the archaeological finds from the 'Earl of Abergavenny' shipwreck to train volunteers in digital recording techniques and create a publicly accessible digital archive.

Prosiect oedd 'Plymio i Archifau Digidol yr Earl of Abergavenny' a gynlluniwyd er mwyn datblygu sgiliau digidol ymhlith gwirfoddolwyr yn y sector treftadaeth. Defnyddiodd Amgueddfa Portland y canfyddiadau archaeolegol o longddrylliad yr 'Earl of Abergavenny' i roi hyfforddiant i wirfoddolwyr mewn technegau cofnodi digidol a chreu archif ddigidol sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

## SPONSOR

UAUK
University Archaeology UK

Archaeology provides
a unique perspective on the past, and opens the door to a huge range of careers. As the only subject that deals with the entire human past in all its temporal and spatial dimensions, it is fundamental to our understanding of how we evolved, how our societies came into being, and how they changed over time. UAUK represents institutions offering Archaeology degrees.



## Dig the Castle

The Dig the Castle Project aimed to explore Torrington's little-understood motte and bailey castle. This project exemplified community involvement, with over 100 adults participating in the excavation and an open day attracting over 200 visitors. Additionally, more than 150 children engaged through school visits and activities.

Bwriad Prosiect Cloddio'r Castell oedd ymchwilio i gastell mwnt a beili Torrington nad oedd llawer o wybodaeth ar gael amdano. Roedd y prosiect hwn yn enghraifft wych o gynnwys y gymuned, gyda thros 100 o oedolion yn cymryd rhan yn y gwaith cloddio a diwrnod agored yn denu dros 200 o ymwelwyr. Yn ogystal, bu dros 150 o blant yn ymwneud â'r prosiect drwy ymweliadau a gweithgareddau i ysgolion.



## The Pendinas Hillfort Community Archaeology Project

The Pendinas Hillfort Project was created in response to the desire of members of the Penparcau community to learn more about their hillfort, a prominent landmark in the village, to encourage more visitors to discover its archaeology and wildlife, and to see the monument better maintained.

Cafodd Prosiect Bryngaer Pendinas ei greu o ganlyniad i awydd ymhlith aelodau cymuned Penparcau i ddysgu mwy am eu bryngaer, sy'n dirnod amlwg yn y pentref, annog rhagor o ymwelwyr i ddarganfod ei harchaeoleg a'i bywyd gwyllt, a sicrhau bod yr heneb yn cael ei chynnal a'i chadw'n well.



## Digging for Erlestoke

In 1963 a small-scale archaeological excavation took place on the site of HMP Erlestoke in Wiltshire when it was a different institution. During this dig items were found dating back to the Bronze Age. Sixty years on, a team from Wessex Archaeology collaborated with the prison to undertake an archaeological project with a difference. Designed to explore the impact of archaeology and heritage on the well-being of the men from the category C HMP Erlestoke prison. The men were given agency to contribute to every step of the archaeology programme.

Yn 1963, cynhaliwyd cloddfa archaeolegol ar raddfa fach ar safle HMP Erlestoke yn Wiltshire pan oedd yn sefydliad gwahanol. Yn ystod y gloddfa hon, canfuwyd eitemau oedd yn dyddio'n ôl i'r Oes Efydd. Chwe deg mlynedd yn ddiweddarach, bu tîm o Wessex Archaeology yn cydweithio â'r carchar i gynnal prosiect archaeolegol ychydig yn wahanol. Y bwriad oedd ymchwilio i effaith archaeoleg a threftadaeth ar lesiant y dynion o garchar categori C HMP Erlestoke. Galluogwyd y dynion i gyfrannu at bob cam o'r rhaglen archaeolegol.

# EARLY CAREER ARCHAEOLOGISTS



## Anna Giecco

Anna is an ever-curious archaeologist, artist, and photographer, from Cumberland. With her photos featuring globally and following her time working on the Uncovering Roman Carlisle project, she co-published “Artefacts from a Roman Drain” at 22. Alongside writing another book while listening to Muppets’ Christmas Carol and Taylor Swift, Anna cares for animals (including hamster “Moto-moto”) and runs an Etsy shop called 'Felted Fancies'.

Mae Anna yn archaeolegydd, arlunydd, a ffotograffydd o Cumberland, a does dim pall ar ei chwilfrydedd. Gyda’i lluniau'n cael sylw byd-eang wrth iddi weithio mewn ffos ddraenio Rufeinig, fe gyd-gyhoeddodd hi “Artefacts from a Roman Drain” yn 22 oed. Wrth iddi ysgrifennu llyfr arall i Muppets’ Christmas Carol a Taylor Swift, mae hi’n gofalu am anifeiliaid (gan gynnwys ei bochdew “Moto-moto”) a’i siop Etsy, Felted Fancies.



## Kieran Manchip

Kieran is a Project Officer at Archaeology Scotland where he leads a number of projects including New Audiences. Kieran studied archaeology and history at the University of Glasgow before undertaking a Masters in Conflict Archaeology. He is passionate about the difference archaeology can make to peoples’ lives and their communities.


Mae Kieran yn Swyddog Prosiectau yn Archaeology Scotland ble mae’n arwain nifer o brosiectau, gan gynnwys New Audiences. Astudiodd Kieran archaeoleg a hanes ym Mhrifysgol Glasgow cyn ymgymryd â gradd Meistr mewn Archaeoleg Gwrthdaro. Mae’n llawn angerdd ynglŷn â’r gwahaniaeth y gall archaeoleg ei wneud i fywydau pobl ac i’w cymunedau.



## Laurie Matthews

Growing up in the West Midlands, Laurie followed education through to Masters level. Being first in her family to gain a degree, she went from University to working as a supply teacher. Following a Masters in Archaeology, Laurie moved to commercial archaeology as an Archaeologist with Headland.

Wedi ei magu yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, dilynodd Laurie yrfa addysgol hyd at lefel Meistr. Hi oedd y cyntaf o’i theulu i gael gradd, ac aeth o’r Brifysgol i weithio fel athrawes lanw. Wedi iddi gael gradd Meistr mewn Archaeoleg, symudodd Laurie i faes archaeoleg fasnachol fel Archaeolegydd gyda Headland.



## Stephanie Black

Steph is a PhD Candidate at Durham University, specialising in the South East Arabian Iron Age. She is from Sydney, and has an MA in Archaeology from Durham University (2021-22) and a Bachelors in Archaeology and Anthropology from Macquarie University (2015-17), minoring in Ancient History, Greece, Rome and Late Antiquity.

Mae Steph yn Ymgeisydd Doethuriaeth ym Mhrifysgol Durham, ac mae'n arbenigo yn Oes Haearn De-Ddwyrain Arabia. Mae hi'n hanu o Sydney, ac mae ganddi MA mewn Archaeoleg o Brifysgol Durham (2021-22) a gradd Baglor mewn Archaeoleg ac Anthropoleg o Brifysgol Macquarie (2015-17), ble bu'n astudio Hanes yr Henfyd, Gwlad Groeg, Rhufain a'r Henfyd Diweddar fel pynciau atodol.

## Rosie Crawford

Rosie completed her undergraduate degree in Archaeology and Anthropology in 2019, her Masters in Forensic Archaeology and Anthropology in 2021, and began working in academic archaeology in 2022.

Cwblhaodd Rosie ei gradd gyntaf mewn Archaeoleg ac Anthropoleg yn 2019, ei gradd Meistr mewn Archaeoleg ac Anthropoleg yn 2021, a dechreuodd weithio ym maes archaeoleg academaidd yn 2022.



# EARLY CAREER ARCHAEOLOGIST SPONSOR

ROYAL ARCHAEOLOGICAL INSTITUTE

The Royal Archaeological Institute is a registered charity that aims to support archaeology at all levels in the UK. It was founded in 1844 and publishes the internationally-renowned Archaeological Journal.

The RAI plays an active role in UK heritage, providing research grants, collaborating on public policy, and advocating on pressing issues that impact the sector. Members play an active part in the Institute, with access to the Journal, lectures, annual conferences, newsletters, and meetings. The RAI is delighted to support the early careers award to encourage the next generation of archaeologists. Dr Penny Bickle is the early careers officer for the RAI and was promoted to Professor of Funerary Archaeology at the University of York in October 2024.

# PUBLIC DISSEMINATION OR PRESENTATION



## Sad Girl Archaeology

'Sad Girl Archaeology is a digital initiative focused on democratising archaeological knowledge through social media platforms. It shifts the narrative from purely academic interpretations to a more emotive and accessible understanding of archaeology.

Mae 'Archaeoleg Merch Drist' yn fenter ddigidol sy'n canolbwyntio ar ddemocrateiddio gwybodaeth archaeolegol drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae'n newid y pwyslais o ddehongliadau cwbl academaidd i ddealltwriaeth fwy emosiynol a hygyrch o archaeoleg.

## JustALittleRoo


JustALittleRoo is a free, online access and outreach platform, designed to demystify the transition to higher education as a lower income student, and widen participation in archaeology and related fields. Since 2016, JustALittleRoo has provided free, internationally available careers resources, research tips, insider-views of archaeology and mini-lectures on archaeological topics.

Llwyfan mynediad ac estyn allan ar-lein, rhad ac am ddim ydy JustALittleRoo, sydd â'r bwriad o ddileu rhai o'r dirgelion sydd ynghlwm â chamu i addysg uwch fel myfyriwr incwm is, ac ehangu cyfranogiad mewn archaeoleg a meysydd cysylltiedig. Ers 2016, mae JustALittleRoo wedi darparu adnoddau gyrfaoedd, cynghorion ar gyfer ymchwilio, golwg o'r tu mewn ar archaeoleg a mini-ddarlithoedd ar bynciau archaeolegol am ddim, ac maent ar gael yn rhyngwladol.

## Star Carr: Life after the Ice

An accessible and sensory exhibition on the site of Star Carr was co-curated in order to tell the story of what life was like for people living at this important Mesolithic site. This has been accompanied by activities including the building of a Mesolithic house in the museum gardens.

Cafodd arddangosfa hygyrch a synhwyraidd ei chyd-guradu ar safle Star Carr er mwyn adrodd sut roedd bywyd i bobl oedd yn byw yn y safle Mesolithig pwysig hwn. Cafwyd gweithgareddau i gyd-fynd â hyn, gan gynnwys adeiladu tŷ Mesolithig yng ngerddi'r amgueddfa.







## Must Farm Pile-Dwelling Settlement

The Late Bronze Age pile-dwelling settlement at Must Farm is one of the most important and best-preserved prehistoric sites to have been systematically excavated in Europe. This comprehensive and methodologically innovative investigation provides unprecedented insights into daily life and domestic practice in Bronze Age society.


Mae'r annedd ar byst o'r Oes Efydd Ddiweddar yn Must Farm yn un o'r safleoedd cynhanesyddol pwysicaf ac yn un o'r goreuon o ran ei gyflwr sydd wedi'u cloddio'n systematig yn Ewrop. Mae'r ymchwiliad trylwyr ac arloesol o ran ei ddulliau yn darparu cipolwg na chafwyd ei debyg o'r blaen ar fywyd pob dydd ac arferion y cartref mewn cymdeithas yn yr Oes Efydd.



## Kilmartin Museum's New Permanent Exhibitions

Following a £7.8M redevelopment, Kilmartin Museum's new Permanent Exhibition offers visitors of all ages a fascinating and engaging insight into the lives of people who inhabited one of Scotland's most significant archaeological landscapes across 12,000 years. Showcasing a Nationally Significant collection, it features artefacts from Kilmartin Glen and across Argyll.

Wedi ailddatblygiad £7.8M, mae Arddangosfa Barhaol newydd Amgueddfa Kilmartin yn cynnig cipolwg hynod ddiddorol ac apelgar ar fywydau pobl fu'n byw ar un o dirweddau archaeolegol mwyaf arwyddocaol yr Alban dros 12,000 o flynyddoedd. Mae casgliad sydd o Arwyddocâd Cenedlaethol i'w weld yma, ac mae'n cynnwys arteffactau o Kilmartin Glen a phob rhan o Argyll.



## A14 Cambridge to Huntingdon Road Improvement Scheme

The A14 scheme is amongst the largest archaeological investigations ever undertaken in the UK. The work covered 232ha and revealed spectacular results, from Pleistocene woolly mammoths to a deserted medieval village. The ambitious post-excavation programme resulted in over 220 outputs aimed at diverse audiences, while the community outreach programme has reached a potential audience of millions.

Mae cynllun yr A14 yn un o'r ymchwiliadau archaeolegol mwyaf i gael ei gynnal erioed yn y Deyrnas Unedig. Bu'r gwaith yn cwmpasu 232ha a datgelodd ganlyniadau rhyfeddol, o famothiaid blewog y Pleistosen i bentref a adawyd yn wag yn y canoloesoedd. Deilliodd dros 220 o ganlyniadau o'r rhaglen uchelgeisiol a ddilynodd y gwaith cloddio, ac mae'r rhaglen allgymorth gymunedol wedi cyrraedd cynulleidfa a allai gynnwys miliynau o bobl.



# LEARNING, TRAINING, & SKILLS

## Kids Dig York, York Archaeology

Kids Dig York is a project aimed at children aged 8-12, led by professional archaeologists from York Archaeology. During each 3-hour session, children, accompanied by parents/guardians, get hands-on experience of real archaeological fieldwork in a trench at Willow House, just within the City Walls near Walmgate Bar.

Prosiect wedi'i anelu at blant 8-12 oed ydy Kids Dig York, dan arweiniad archaeolegwyr o York Archaeology. Yn ystod pob sesiwn 3-awr, mae plant, ynghyd â'u rhieni/gwarcheidwaid yn cael profiad ymarferol o waith maes archaeolegol dilys mewn ffos yn Willow House, ger ochr fewnol Muriau'r Ddinas yn Walmgate Bar.

## Junior Archaeologist Excavation Experience

Over 70 students from Long Melford Church of England Primary School started the new academic year gaining hands-on involvement with an archaeological dig in the school grounds. This unique excavation experience has been organised by members of the Long Melford Heritage Trust Archaeological Team who prepared the site – on the school's playing field - over the summer.

Dechreuodd dros 70 o fyfyrwyr o Ysgol Gynradd Eglwys Loegr Long Melford y flwyddyn academaidd newydd yn cael profiad ymarferol gyda chloddfa archaeolegol ar dir yr ysgol. Mae'r profiad unigryw hwn o gloddfa wedi'i drefnu gan aelodau o Dîm Archaeolegol y Long Melford Heritage Trust a fu'n paratoi'r safle – ar gae chwarae'r ysgol – dros yr haf.

## Irchester Field School

An innovative collaboration between North Northants Council (at the Chester House Estate) and the University of Leicester, inspiring and empowering people of all ages to engage in life-enhancing opportunities focused on the small Roman town of Irchester, and the rich archaeology and heritage of the Nene Valley.

Cywaith arloesol rhwng Cyngor North Northants (yn Ystâd Chester House) a Phrifysgol Caerlŷr, yn ysbrydoli ac yn grymuso pobl o bob oed i ymgymryd â chyfleoedd sydd yn gwella eu bywydau drwy ganolbwyntio ar dref Rufeinig fechan Irchester, a chyfoeth archaeoleg a threftadaeth Dyffryn Nene.

## SPONSOR

AMS

AMS is a leading independent cultural heritage consultancy that provides a full range of archaeological services. With offices in Ireland and the UK, our unique multidisciplinary team of archaeologists, project managers and historians brings together many years accumulated experience within the public and private sectors. We deliver to the highest standards of quality, expertise, and professionalism. Our mission is to excel in terms of the quality of the service we deliver and to strive at all times to exceed our clients' expectations.

# THANK YOU TO OUR SPONSORS & JUDGES

## AWARD SPONSORS

Archaeology and Sustainability

Learning, Training and Skills Award

Engagement and Participation Award

Early Career Archaeologist

## OUTSTANDING ACHIEVEMENT AWARD

## BOOKLET SPONSORS

## AV SPONSORS

## TRAVEL BURSARY SPONSORS

## OFFICIAL FUNDERS

## OFFICIAL SPONSORS

# ROYAL COMMISSION ON THE ANCIENT AND HISTORICAL MONUMENTS OF WALES



Established in 1908, the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales was set up to create an inventory of the most significant buildings and archaeological monuments in Wales and to work for their understanding, enjoyment and protection. Since then, the Royal Commission has a maintained a leading role in researching and explaining the historic landscape, maritime and built heritage of Wales.


The survey work of the Commission is fundamental to its Royal Warrant and involves systematic pan-Wales field surveys and aerial reconnaissance, using advanced digital methods to create records that are used to enhance The National Monuments Record of Wales, the Commission's unique collection of photographs, maps, surveys and reports . Commission has digitised large parts of its archives and made them available online through Coflein, including thousands of unique images, coflein.gov.uk. These records, and the expert advice that staff bring to their interpretation, provide the evidence base that underpins policy decisions and decision-making about the management of the historic landscape of Wales, and are much in demand by planners, researchers, teachers, publishers and the public.

Collaborative projects with other heritage organisations expand the reach and scope of our survey work. CHERISH (The Climate, Heritage, and Environments of Reefs, Islands, and Headlands project, 2017– 2023, funded by the European Union) provides a good example. This initiative with Welsh and Irish partners focused on assessing and monitoring the impacts of climate change on coastal and maritime heritage sites and establishing methodologies for future monitoring and adaptation. Many of the Commission's surveys are available on sketchfab.com/CBHC_RCAHMW, providing detailed digital replicas that can be explored and analysed by everyone.

The Commission's architectural studies are well known. Its flagship book, Houses of the Welsh Countryside, will be celebrating its 50th anniversary next year and is still essential reading. Current architectural projects include recording the built heritage of the 20th century, with schools and places of worship as a key building type. Recent publications include Painted Temples: Wallpaintings and Rood-screens in Welsh Churches (2021) and The Swansea Canal and its Early Railways (2023).

The Commission's historic mapping and place-names projects provide an overview of the historic landscapes of Wales. The recently launched Historical Boundaries of Wales website (historical-boundaries-of-wales-rcahmw.hub.arcgis.com/) maps significant historical administrative boundaries as accurately as possible to modern mapping and contains a series of publicly accessible interactive web maps (both 2D & 3D). The Commission curates the List of Historic Place Names in Wales on behalf of Welsh Government. This groundbreaking database contains over 700,000 place names collected from historical sources, providing a unique resource for the study of land-use, archaeology and history and for naming new streets, estates and developments (historicplacenames.rcahmw.gov.uk/)

The Commission plays an important role in promoting heritage through publications, exhibitions and community archaeology. Recent projects include the Pendinas Hillfort Community Archaeology Project and the Welsh Asian Heritage Project. Both projects have free eBooks downloadable from the Commission's online bookshop: shop.rcahmw.gov.uk/



Cafodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ei sefydlu yn 1908 er mwyn creu rhestr o'r adeiladau a'r henebion archaeolegol pwysicaf yng Nghymru a gweithio i hybu dealltwriaeth a mwynhad ohonynt ac i'w gwarchod. Ers

hynny, mae'r Comisiwn Brenhinol wedi parhau i chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o ymchwilio i dirwedd hanesyddol a threftadaeth arforol ac adeiledig Cymru a'u hesbonio.

Mae gwaith arolygu'r Comisiwn yn hanfodol i'w Warant Frenhinol ac mae'n cynnwys cynnal arolygon systematig yn y maes ledled Cymru a theithiau archwilio o'r awyr, gan ddefnyddio dulliau digidol datblygedig i greu cofnodion a ddefnyddir i gyfoethogi Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sef casgliad unigryw'r Comisiwn o ffotograffau, mapiau, arolygon ac adroddiadau. Mae'r Comisiwn wedi digido rhannau helaeth o'i archifau ac wedi sicrhau eu bod ar gael ar-lein drwy Coflein, ac maent yn cynnwys miloedd o ddelweddau unigryw. **coflein.gov.uk**.

Mae'r cofnodion hyn a'r cyngor arbenigol y mae'r staff yn ei gynnig wrth eu dehongli yn darparu'r sylfaen dystiolaeth sy'n ategu penderfyniadau polisi a phenderfyniadau ynghylch sut y caiff tirwedd hanesyddol Cymru ei rheoli, ac mae galw mawr amdanynt gan gynllunwyr, ymchwilwyr, athrawon, cyhoeddwyr ac aelodau'r cyhoedd.

Mae prosiectau cydweithredol gyda sefydliadau eraill ym maes treftadaeth yn ehangu cynulleidfa a chwmpas ein gwaith arolygu. Mae CHERISH (y prosiect Hinsawdd, Treftadaeth ac Amgylcheddau Riffiau, Ynysoedd a Phentiroedd, 2017– 2023, a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd) yn enghraifft dda. Bu'r fenter hon gyda phartneriaid yng Nghymru ac Iwerddon yn canolbwyntio ar asesu a monitro effeithiau newid hinsawdd ar safleoedd treftadaeth arfordirol ac arforol ac yn sefydlu methodolegau ar gyfer monitro ac addasu yn y dyfodol. Mae llawer o arolygon y Comisiwn ar gael ar sketchfab.com/CBHC_RCAHMW, sy'n darparu atgynyrchiadau digidol manwl y gall pawb eu harchwilio a'u dadansoddi.

Mae astudiaethau pensaernïol y Comisiwn yn enwog. Bydd ei lyfr blaenllaw, Houses of the Welsh Countryside, yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed y flwyddyn nesaf ac mae'n dal yn llyfr hanfodol i'w ddarllen. Mae prosiectau pensaernïol cyfredol yn cynnwys cofnodi treftadaeth adeiledig yr 20fed ganrif, gydag ysgolion ac addoldai'n fathau allweddol o adeiladau. Ymhlith cyhoeddiadau diweddar y Comisiwn y mae Temlau Peintiedig: Murluniau a Chroglenni yn Eglwysi Cymru (2021) a The Swansea Canal and its Early Railways (2023).

Mae prosiectau'r Comisiwn ym maes mapiau hanesyddol ac enwau lleoedd yn darparu trosolwg o dirweddau hanesyddol Cymru. Mae'r wefan a lansiwyd yn ddiweddar, sef Ffiniau Hanesyddol Cymru (ffiniau-hanesyddol-cymru-rcahmw.hub.arcgis.com/), yn mapio ffiniau gweinyddol hanesyddol pwysig mor gywir ag sy'n bosibl ar sail mapiau modern ac mae'n cynnwys cyfres o fapiau gwe rhyngweithiol y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt (rhai 2D a 3D). Mae'r Comisiwn yn curadu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r gronfa ddata arloesol hon yn cynnwys dros 700,000 o enwau lleoedd a gasglwyd o ffynonellau hanesyddol, ac maent yn adnodd unigryw ar gyfer astudio defnydd tir, archaeoleg a hanes ac ar gyfer enwi strydoedd, ystadau a datblygiadau newydd (enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/)

Mae'r Comisiwn yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o hyrwyddo treftadaeth drwy gyfrwng cyhoeddiadau, arddangosfeydd ac archaeoleg gymunedol. Ymhlith ei brosiectau diweddar y mae Prosiect Archaeoleg Gymunedol Bryngaer Pendinas a Phrosiect Treftadaeth Asiaidd Cymru. Mae gan y ddau brosiect eLyfrau rhad ac am ddim y gellir eu lawrlwytho o siop lyfrau ar-lein y Comisiwn: siop.cbhc.gov.uk/

**To make it easier for users worldwide to explore Wales's rich heritage, the Commission maintains a dedicated Library and Enquiries Team: Tel: 01970 621200, email nmr.wales@rcahmw.gov.uk or visit https://rcahmw.gov.uk/contact-us**

**The Royal Commission is based in Aberystwyth and is sponsored by the Welsh Government.**

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

CBHC RCAHMW
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales





# OUR JUDGES

## James Kyle - Chair of Judges
Institute of Archaeologists of Ireland (IAI)

## Laura Hampden - Vice-Chair of Judges
European Society of Black and Allied Archaeologists (ESBAA)

### Aidan O'Sullivan
University College Dublin

### Carenza Lewis
University of Lincoln

### Clemency Cooper
CBA Trustee

### James Cole
Brighton University

### Jo Caruth
RESCUE

### John Lawson
Association of Local Government Archaeological Officers (ALGAO)

### Kate Geary
Chartered Institute for Archaeologists (CIfA)

### Kathryn Laws
CBA Cymru

### Kayt Hawkins
Research Institute for Equality in Archaeology and Cultural Heritage (REACH)

### Keith Lilly
Queen's University Belfast

### Kevin Booth
Society for Museum Archaeology (SMA)

### Nina O'Hare
Community groups

### Penny Bickle
Royal Archaeological Institute

### Phil Richardson
Archaeology Scotland

### Vicki Cummings
University Archaeology UK (UAUK)

Thank you to 'Bla' for their Welsh translation services,

www.bla-translation.co.uk
linkedin.com/company/bla-translation
office@bla-translation.co.uk




# CELEBRATING EXCELLENCE IN ARCHAEOLOGY

www.archaeologyuk.org
awards@archaeologyuk.org
@archaeologuk